# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd R Malcolm James**

**Ward: Llangynwyd a Chwmfelin**

**Plaid: Plaid Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Ebrill 2025**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**Y Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Llangynwyd a Chwmfelin eto ar 7 Mai 2022, am fy nhrydydd tymor. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 80o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a llawer mwy gyda sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill y gofynnwyd i mi helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Mae rhagor o wybodaeth am fy rôl a'm cyfrifoldebau ar gael yma **Y Cynghorydd Malcolm James.**

**Gweithgareddau Etholaethol**

Rwy'n parhau i fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, sy'n dal i gael adroddiadau rhagorol am ei gwaith caled.

Rwyf hefyd yn llywodraethwr ysgol fabanod ac iau Llangynwyd ac yn mwynhau fy ymwneud yno gyda'r Pennaeth, athrawon a disgyblion, yn enwedig ar ddydd Gŵyl Dewi.

Rwy'n parhau i eistedd ar y Pwyllgor Trwyddedu ac yn treulio llawer o'm hamser yn gweithio ar ymholiadau etholwyr, yn enwedig ar hyn o bryd gyda materion ariannol, tai ac wrth gwrs y tyllau yn y ffyrdd yr ydym i gyd yn eu hwynebu gyda'n harwynebau ffordd gwael.

Rwyf hefyd yn cefnogi Cyngor Cymuned Llangynwyd ar faterion lleol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Byddaf yn parhau i frwydro dros ynni'r llanw, yr wyf yn teimlo, fel ynys, yw'r ateb gwell. Rwyf yn parhau i weithio'n agos gyda'n AoS Luke Fletcher i wella ein cymuned leol a pharhau i geisio cydbwyso'r anghyfiawnderau yn ein hardaloedd, ni ddylid anghofio'r Cwm.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwy'n aelod o glwb rygbi lleol, lle byddwch yn dod o hyd i mi wrth y giât bob dydd Sadwrn (Quins Maesteg). Mae annog chwaraeon yn y gymuned wedi bod yn un o'm nodau erioed ac mae gweld pa mor dda mae'r clwb wedi datblygu heb unrhyw gyllid mawr heblaw gan gefnogwyr a chwaraewyr yn bleser mawr.

Rwyf hefyd bellach yn is-lywydd Cymdeithas Bysgota Cwm Llynfi sy'n helpu i roi mynediad i bobl ifanc (ffi drwydded rhad iawn i blant dan 16 oed - £5) at fwy o weithgareddau awyr agored, ond bydd pobl wedi'u synnu o glywed taw'r clwb sy'n stocio'r afon am gost o £7.20 y pysgodyn.

**Y Cynghorydd Malcolm James- R Malcolm James :**
**Dyddiad:6/6/2025**